

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Practis Deintyddol uSmile
Dyddiad y gweithgarwch: 10/8/2022

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol uSmile fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis deintyddol hwn wedi'i leoli ym Mhorthcawl, De Cymru, ac yn cynnig gofal deintyddol GIG a phreifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r unigolyn cyfrifol ar 10 Awst 2022, a ddarparodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

Practisau deintyddol

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys yr asesiadau risg amgylcheddol mwyaf diweddar.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom adolygu'r asesiad risg amgylcheddol a chadarnhau ei fod wedi'i gwblhau'n ddigonol ac yn gyfredol.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y manau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Mae'r staff wedi lleihau nifer y cadeiriau yn y man aros er mwyn cynnal pellter cymdeithasol. Roedd newidiadau eraill yn cynnwys gosod gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r practis, gosod sgriniau amddiffynnol o amgylch desg y dderbynfa, a thacluso'r man aros.

Dyweddodd y staff wrthym fod offer ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol¹ a gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol ym mhob ystafell driniaeth. Mae systemau awyru wedi'u gosod ym mhob un ac mae cadeiriau ychwanegol wedi'u tynnu o'r ystafelloedd. Mae posteri papur wedi'u tynnu i lawr, ac mae unrhyw wybodaeth sydd ar ôl ar y waliau naill ai wedi'i lamineiddio neu wedi'i gorchuddio â gwydr, gan ei gwneud yn hawdd i'w glanhau.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am COVID-19 yn cael ei rhannu â chleifion pan fyddant yn gwneud eu hapwyntiad, a thrwy negeseuon testun ac e-byst atgoffa dridiau cyn yr apwyntiad a drefnwyd. Ar ôl cyrraedd y practis, gofynnir cyfres o gwestiynau cyn sgrinio COVID-19 i'r cleifion hefyd. Yna caiff yr wybodaeth hon ei storio yn ffeiliau'r cleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dyweddodd y staff wrthym nad oes unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis ar hyn o bryd. Er bod gwybodaeth gan y bwrdd iechyd yn cael ei harddangos yn ddwyieithog, dim ond taflen wybodaeth Saesneg sydd ar gael i'r cleifion. Dywedasom wrth y staff fod angen i hon fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gwella eu gwasanaeth dwyieithog.

¹ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddiau.

Gwnaethom hefyd awgrymu bod rheolwr y practis yn ystyried recordio neges ffôn ddwyieithog.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Polisi glanhau
- Archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Cofnodion gwiriadau dyddiol pob awtoclaf
- Gweithdrefn glanhau â llaw lawn

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer y ddeintyddfa a ddarparwyd, ynghyd â chopïau o'r weithdrefn glanhau â llaw lawn a gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf, yn drwyadl ac yn gyflawn.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn gwisgo a diosg² cyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym fod y staff hefyd yn rhagweithiol wrth geisio hyfforddiant ar-lein ychwanegol yn ystod y pandemig.

Dyweddwyd wrthym, os bydd angen apwyntiad ar glaf â symptomau COVID-19, y bydd staff yn trefnu i'r claf hwn gael ei weld cyn yr awr ginio neu ar ddiwedd y dydd. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer glanhau ychwanegol ac yn lleihau'r risg o ryngweithio â chleifion eraill. Bydd cleifion o'r fath yn cael eu hebrwng o'r drws yn syth i'r ystafell driniaeth a bydd staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn.

Dyweddodd y staff fod ganddynt stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol yn y practis ar bob adeg. Ar y cychwyn, roedd nyrsys y practis yn cynnal gwiriadau stoc yn wythnosol, ond mae hyn bellach wedi'i leihau i bob tair wythnos. Bydd y nyrsys deintyddol yn cwblhau rhestr wirio pryd bynnag y byddant yn gwneud y gwiriad stoc, a fydd wedyn yn cael ei gwirio gan reolwr

² Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

y practis.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Adroddiad Rheoliad 23
- Datganiad o ddiben
- Taflen gwybodaeth i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad o gardiau cofnod
- Polisi/gweithdrefn cydsyniad gwybodus
- Copi o bolisi diweddaraf COVID-19
- Cynllun parhad busnes ar gyfer y practis
- Cofnod hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff (clinigol ac anghlinigol)

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom adolygu'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff. Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau ac yn gyfredol.

Fe'n hysbyswyd ni fod unrhyw ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu cyflwyno i'r staff mewn cyfarfodydd tîm a thrwy grŵp WhatsApp ar gyfer yr holl staff.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae rheolwr y practis yn cynnal yr holl wiriadau angenrheidiol ar ddiwrnod gwaith cyntaf pob wythnos. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod dau aelod arall o staff wedi'u hyfforddi i gynnal y gwiriadau hyn yn llwyddiannus yn absenoldeb rheolwr y practis.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben,³ a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

³ Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a'r atodlen.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Wrth adolygu'r daflen gwybodaeth i gleifion,⁴ canfuom nad oedd gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion treisgar neu ddifriol, a'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant a datblygiad y staff, wedi'u cynnwys. Mae'n ofynnol gennym fod y staff yn cynnwys yr wybodaeth hon yn y daflen gwybodaeth i gleifion cyn gynted â phosibl.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach

⁴ Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad:

Ward/Adran/Gwasanaeth
(dilëer fel y bo'n berthnasol):

Dyddiad y gweithgarwch:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

[Dylid cynnwys unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith \(o lythyr\) yn y tabl isod - PEIDIWCH â chynnwys y rhain yn y prif gynllun gwella. Os NAD oes unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith, nodwch hyn yn y tabl isod.](#)

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol uSmile

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol gennym fod y staff yn sicrhau bod y daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gwella'r gwasanaeth dwyieithog a gynigir yn y practis.	Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 <u>Safonau Iechyd a Gofal - 3.2</u> <u>Cyfathrebu'n effeithiol</u>	<u>Dod o hyd i gyfieithydd i gyfieithu ein taflen i gleifion i'r Gymraeg.</u>	<u>S Fodor</u>	<u>2 fis</u>

Rhaid i staff sicrhau bod gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion treisgar neu ddifriol a'r trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu staff wedi'u cynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion.

Rheoliad 6 (1), (2), (3) ac Atodlen 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

Gwirio bod yr holl staff wedi cwblhau / ychwanegu at eu Cynllun Datblygiad Personol - delio â chleifion treisgar neu ymosodol.

S Fodor

6 wythnos

Bydd hyfforddiant a datblygiad y staff yn cael eu hychwanegu at ein taflen gwybodaeth i gleifion.

S Fodor

4 wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: